# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor – nos Iau, 3ydd o Hydref 2024 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Goffa Chwilog a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).**

**Penderfyniwyd cynnal y cyfarfod busnes/cyllid o flaen y prif gyfarfod nesaf am 6:30 ar 7fed o Dachwedd 2024.**

**Yn bresennol** y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Delyth Parry, Anwen Jones, Dylan Thomas, Euros Jones, Angela Williams, Miriam Williams, Gareth O.Davies, Dewi Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Tegid Jones, Aled Davies a Darren Morley.

2. **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 5ed o Fedi 2024.**

3. **Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Medi 2024.**

4. **Datgan buddiant personol** – Cynghorydd Rhys Tudur – mater brys 19. Cynnig cymeradwyo adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg, oherwydd ei fod yn gyn aelod o'r Comisiwn.

5. **Croesawu'r Cynghorydd Dewi Thomas** yn gynghorydd newydd ar Ward Llanystumdwy.

**Materion gan Cyngor Gwynedd**

6. **Rhaglen waith Trafnidiaeth a Priffyrdd mis Hydref 2024**

| Lleoliad | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Pont Rhydybenllig | Clwyd diogelwch | Priffyrdd |

7. **Ceisiadau cynllunio sydd angen penderfyniad:-**

a) **Cais rhif C24/0742/41/DT Bryn Gwdyn Uchaf, Y Ffôr, Pwllheli,**
Adeilad allanol / garej newydd arfaethedig gyda garej / gweithdy dwbl ar y llawr gwaelod a lefel mesanîn o fewn gofod to ar gyfer ardal swyddfa a lle storio.

**Dim gwrthwynebiad ond gobeithiwn y bydd amodau cynllunio'n atal y modurdy rhag cael ei ddefnyddio fel llety gwyliau/annedd.**

8. **Sedd wag yn Ward Llanarmon**. Clerc wedi cysylltu hefo Huw Elfed Williams, Swyddog Etholiadau a bydd rhybudd hysbysiad sedd wag yn cael ei roi ar y wefan, ac o flaen Neuadd Chwilog hefo dyddiad cau 25.10.2024.

**Materion yn y gymuned**.

9. **Llanystumdwy**

10. **Rhoslan/Ynys**

**Lloches bws newydd, Maes Eifion, Rhoslan** – ebost gan Rhian Williams, Rheolwr Uned Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd. Maent wedi derbyn arian gan Llywodraeth Cymru i uwchraddio/ gosod llochesi bws newydd ar hyd rhwydwaith Traws Cymru.
Mae wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned gadarnhau ei bod yn cytuno hefo'r lleoliad ar frys er mwyn cwblhau y gwaith o fewn amser. Bydd trefniadau yswiriant a cynnal a chadw y llochesi yn disgyn ar y Cyngor Cymuned.

Gellir ail-gylchu'r lloches bws sydd yno rwan a'i ddefnyddio yn rhywle arall pe dymunir. Y Clerc wedi cysylltu hefo'r Cynghorwyr a derbyniwyd ymatebion yn cadarnhau ei bod yn cytuno i osod un newydd yno. Y Clerc wedi anfon ymateb i'w hysbysu o hyn, ac roeddent am symud y diffibrileiddiwr a'i ail osod ar y safle. Bydd angen tynnu'r hysbysfwrdd oherwydd na fydd lle arall i'w osod yno wedyn. Cytunwyd i osod yr hysbysfwrdd yng nghroesfan Llangybi yn lle'r llall sydd yno oherwydd fod dwr yn mynd i mewn iddo. Mae'r Cynghorydd Rhys Tudur wedi cytuno i fynd i'r safle yn Rhoslan i gynrychioli'r Cyngor Cymuned gyda swyddogion o'r Cyngor.

11. **Chwilog**
a) **Cae chwarae** – ymholiad gan riant o'r pentref yn dweud ei bod ar ddeall mai Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y cae chwarae a'i bod wedi cwyno wrthyn nhw ei fod yn "eithaf peryglus i blant bach", hefyd dywedodd "nid oedd ganddyn nhw fawr i ddweud heblaw fod pres yn dynn. Oes posib gwneud unrhyw beth am hyn, bod y pentref yn cymryd y parc drosodd ac yn hel arian i'w wella? Dwi'n gwybod fod hynny yn digwydd mewn nifer o gymunedau eraill, hefo'r stadau newydd o dai a'r holl blant sydd nawr yn y pentref mae'n siom fawr cael parc mor wael". Eglurwyd fod cyfarfodydd yn y pentref wedi cael ei cynnal yn y gorffennol tua dwy flynedd yn ol gan y Cynghorydd Rhys Tudur, i weld beth oedd yr opsiynau gorau, a faint o ddiddordeb lleol oedd mewn ceisio adnewyddu'r cae, ond ni wireddwyd hyn. Mae costau uchel iawn wrth gael offer newydd a gwaith chynnal a chadw'n cynyddu. Y Clerc am anfon ymateb at y rhiant yn egluro hyn.

b) **Gwrychoedd Coetmor a Llys Elphin** angen eu barbio, gan ei bod yn amharu ar y pafin. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

c) **Draen rhwng Llys Elphin a'r bont** wedi blocio ac angen rhoi cais i mewn i gliro'r lonydd hyd at at Dolydd, a chael "sweeper" ar hyd y lon i sgwrio'n achlysurol. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

12. **Pencaenewydd/Sardis**
13. **Llangybi**
**Cae chwarae Llangybi – llawr newydd o dan yr offer.** Penderfynu aros i gael yr Adroddiad blynyddol gan Fields in Trust gyntaf.

14. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.09.2024, a chyllideb hyd at 31.03.2025. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

15. **Cof Eifionydd** - diweddariad gan Cynghorydd Rhys Tudur, a gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mr Sion Blake, Cronfa Elw Park Jones, yn cynnig yr arian grant o £2,000.00 a dderbyniwyd ganddynt ar 29.06.2022 yn nol, yn bendodol oherwydd diffyg amser i greu y wefan.

16. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris £ | TAW | Cyfanswm Taliad £ | Taliad BACS £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Neuadd Llanystumdwy | Cynnal cyfarfodydd 06.06.2024 11.07.2024 a 05.09.2024. | **45.00** | | **45.00** | **45.00** |
| Neuadd Chwilog | Cynnal cyfarfodydd 2022/2023 a 2023/2024 (anfoneb rhif 530) | **130.00** | | **130.00** | **130.00** |

18. Cyflog mis Medi 2024 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm £ | Cyfanswm Taliad net £ | Taliad BACS:- £ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Medi 2024 35 awr y mis x £17.16 = £600.60 | 600.60 = Llai treth £120.12 = **£480.48** | **480.48** | **480.48** |
| Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc Medi 2024 | 600.60 x 20% = **£120.12** | **120.12** | **120.12** |
| Costau swyddfa'r Clerc Medi 2024 | £26.00 | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

**19. Cynnig brys – Cymeradwyo Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymreig.**

Derbyniwyd cynnig brys gan y Cadeirydd, yn dweud:-

"Mae'r Cyngor hwn yn:

Cymeradwyo adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn credu bod dynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yn gam allweddol tuag at gyfnerthu cymunedau Cymraeg. Geilw ar Lywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd i ddynodi ardaloedd o arwyddocad ieithyddol yn unol ag argymhelliad y Comisiwn

Fel Cyngor Cymuned sydd mewn ardal y mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd mwyafrif ei thrigolion, rydym yn credu bod Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn un pwysig tu hwnt ac y byddai dynodi Ardaloedd o Arwyddocad Ieithyddol yn gam ymlaen at sicrhau dyfodol ein cymunedau a diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol. Byddai'r dynodiad yn rhwyddhau'r ffordd i amrywio polisi yn lleol gan roi ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg".

Gofynnwyd i'r Clerc anfon ebost at holl glercod cynghorau tref a chymuned Gwynedd yn gofyn wrthynt ei drafod yn ei cyfarfod nesaf, ac i anfon y cynnig ymlaen at y canlynol os oeddent yn gefnogol i'r cynnig:-

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
dafyddgibbard@gwynedd'llyw.cymru
Cynghorydd.niajeffreys@gwynedd.llyw.cymru

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau **07.11.2024**, yn Ystafell Myrddin, Neuadd Chwilog a drwy Zoom, a bydd y cyfarfod Busnes / Cyllid o'i flaen am 6:30.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**